

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



Wythnos yma

Cwlwm Rhieni

Diolch i bawb a fynychodd ein cyfarfod Cwlwm Rhieni cyntaf yn Nyth yr ysgol. Ffocws y cyfarfod oedd Amrywiaeth a Chynhwysiant. Trafodwyd nifer o syniadau gwych ac roedd yn hyfryd clywed eich syniadau a'ch adborth, yn ogystal â thrafod sut y gallwn gysylltu ymhellach gyda'r gymuned. Bydd cyfarfod nesaf y Cwlwm Rhieni yn cael ei gynnal yn ystod tymor y gwanwyn, pan fyddwn yn canolbwyntio ar ddarllen

Ffair Nadolig Pontcanna

Bydd Ffair Nadolig Pontcanna yn cael ei chynnal brynhawn dydd Sul, y 15fed o Ragfyr. Bydd côr yr ysgol yn perfformio, sef holl ddisgyblion Blwyddyn 4,5 a 6 sy'n aelodau o gôr yr ysgol. Croeso mawr i'r rhieni i ymuno â ni i fwynhau prynhawn Nadoligaidd yng ngherddi Pontcanna.

Taith Noddedig y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn

Diolch yn fawr i'r holl rheini a staff wnaeth gefnogi taith noddedig y Meithrin a'r Derbyn ym mharc Fictoria dydd Sul diwethaf. Roedd yn hyfryd i gymdeithasu gyda'n gilydd a'r haul yn gwenu'n braf. Llwyddwyd i godi £1380 ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a'r Derbyn. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac i brynu adnoddau. Diolch i bawb am gyfrannu ac i'r disgyblion am gerdded tair gwaith o gwmpas Parc Fictoria!

Panto Culhwch ac Olwen

Cafodd disgyblion blwyddyn 3,4,5 a 6 brynhawn hyfryd yn Y Bari ddydd Mawrth, yn gwyllo'r pantomeim Culhwch ac Olwen. Roedd pawb wedi i ymddwyn yn arbennig o dda a diolch i'r staff ac i'r rhieni a wirfoddolodd i helpu.

Calendr



Ffair Nadolig
30/11/24

Bws Beic
13/12/24

Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon


Cofiwch am y digwyddiadau yma. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a'r gwirfoddolwyr am eu holl waith.



**GWEITHDY
ADDURN
BWRDD
NADOLIG**

Ymunwch â ni yn Nhafarn Parc Fictoria ar yr 2ail o Rhagfyr am 7.30yh am weithdy creu addurn bwrdd nadolig gan 'Follow fleurs Forever'.

£30 y pen, yn cynnwys deunydd. Archebwch yma:
www.ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com/product/christmas-table-center-piece-workshop



Ffrindiau Ysgol Treganna

Ffair Nadolig

**GEMAU
LLUNIAETH
RENTIO WYNEBAU
STONDINAU ANRHEGION
A MWY!**


30 ain | **10-2PM** | **Mynediad**
Dachwedd | Neuadd yr Ysgol | am Ddim

Gwobrau Raffl y Ffair Nadolig

Dyma restr o wobrau raffl y Ffair Nadolig. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r raffl yma. Mae'r GRhA yn gofyn yn garedig am roddion ar gyfer y tombola. Diolch yn fawr!

Dyma linc i siop y GrhA.

<https://ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com>




FFRINDIAU YSGOL TREGANNA RAFFL NADOLIG

Autumn's Corner - Addurn Plant wedi'i Bersonoli, B G Bakes - 2 x focs o gacennau bach, The Bearded Taco - 3 x taleb, Bedlam Paintball - 2 x daleb £200, Siop Goffi Bloc - 2 x daleb £10, Canolfan Celfyddydau Chapter - poster o ffilm, Cote - taleb £100, cWFL - taleb, cWFL - bag o nwyddau, Dance with Rhi - talebau i ddsbarth dawn, The Doll House - taleb, Gerddi Dyffryn - tocyn mynediad teulu, Escape Rooms, Caerdydd - taleb i ddau berson, Feet and Face Place - taleb, Fi's Creative Creations - gwobr, Fizz n Flour - 2 x daleb £50, Fumble Folks - taleb £15, The Glee Club - 2 docyn i unrhyw berfformiad, Hard Lines - bag o nwyddau, Hotpod Yoga - taleb i ddsbarth, House of Hinton - taleb torri a sychu gwallt i ddynes, Cwrt Insole - tocynnau i ddigwyddiad neu daith, Adweithg Kelly Lewis - taleb ar gyfer awr o driniaeth adweithg deudroed, Let Them See Cake - bocs o nwyddau blasus, Mam a Merch - Clustog dynes Gymreig, Melanie Jenkins, Therapydd Tylino yn y Cartref - taleb, Parc Play - tocyn teulu, hodd - tegau, hodd - torch Nadolig, Rubylicious - taleb i ddsbarth dawn, Spirt of Wales - taith o'r ddistyllfa i 4 person, Tramshed/The Globe 2 docyn i unrhyw gig yn 2025, Tiny Rebel - 12 cas cymysg o gwrr, Treetop Adventure Golf - 2 x daleb 18 twll, Ty Twt Beauty - taleb, Vibes Yoga Bar - taleb ddsbarth i ddau berson, Tafarn y Victoria Park - Cnio Sul a diod i ddau berson, Welsh Cheese company - 2 x bisgedi caws, Welsh gift shop - taleb £100

£1 y toeyn - toeynnau ar werth tan y 9fed o Ragfyr a'r raffl yn cael ei chynnal ar yr 1leg o Ragfyr

Toeynnau ar gael o: Ffrindiau Treganna Shop



Sioeau Nadolig bl 4,5 a 6

O ran trefniadau y sioeau Nadolig, gofynnwn yn garedig i'ch plentyn (os ym ml 4,5 a 6) i aros ymlaen ar ôl ysgol ar gyfer y 3 sioe a dod â bocs bwyd i'r ysgol gyda nhw.

Cofiwch archebu tocyn ar gyfer y noson ble mae cymuned eich plentyn yn arwain y sioe:

Pwyll 10.12.24 5yp

Branwen 11.12.24 5yp

Manawydan 12.12.24 5yp

Dyma ddyddiadau sioeau Nadolig mis Rhagfyr.

Pwy?	Pryd?	Faint o'r gloch?	Ble?
Meithrin (Math)	19/12/24	10.00yb a 2.00yp	Neuadd yr ysgol
Derbyn	16/12/24	2.00yp	Neuadd yr ysgol
Manawydan (Bl 1,2 a 3)	4/12/24	10.00yb	Neuadd yr ysgol
Branwen (Bl 1,2 a 3)	4/12/24	2.00yp	Neuadd yr ysgol
Pwyll (Bl 1,2 a 3)	5/12/24	10.00yb	Neuadd yr ysgol
Manawydan (Bl 4,5 a 6)	12/12/24	5.00yp	Neuadd yr ysgol
Branwen (Bl 4,5 a 6)	11/12/24	5.00yp	Neuadd yr ysgol
Pwyll (Bl 4.5 a 6)	10/12/24	5.00yp	Neuadd yr ysgol

Patrwm iaith

Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos

Wyt ti'n gallu...?
Ydych chi'n gallu..?
Ydw/ Nac ydw

Her

Gai ganiatâd i...?
Allwn i gael...?

Testun trafod yr wythnos

Y chwaraeon gorau yw...oherwydd

Cân yr wythnos

Dadleoli- Hen Stori

Idiom yr wythnos

Â'i wynt yn ei ddrwn/ Â'i gwynt yn ei dwrn